# ADRODDIAD Y CORFF LLYWODRAETHU I RHIENI

# 2024-2025

# YSGOL Y STRADE

## Neges oddi wrth Cadeirydd y Corff Llywodraethol…

**Annwyl Riant/Warcheidwad,**

Mae’n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethol am y flwyddyn ysgol 2024-2025, i’ch sylw. Mae Ysgol Y Strade wedi bod yn fwrlwm unwaith eto yn ystod y flwyddyn academaidd, yn yr ystafell ddosbarth a thu allan. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i fynegi fy niolch i’r Pennaeth, y tîm rheoli a holl aelodau’r staff am eu hymroddiad digynsail i sicrhau bod lefelau uchel parhaus yr ysgol o lwyddiant academaidd a thrawsgwricwlaidd yn cael eu cynnal. Rwyf hefyd yn ymwybodol bod yr ysgol wrthi’n cynllunio ar gyfer y dyfodol ac mae ganddi nifer o ddatblygiadau cyffrous i’w cyflwyno yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf.

Hoffwn hefyd ddiolch yn ddiffuant i’r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, sy’n cynnal gweithgareddau cymdeithasol i godi arian i’n plant. Maent yn gwirfoddoli eu hamser yn barhaus dros y flwyddyn er mwyn gallu cyfrannu at gostau adnoddau ychwanegol i'r ysgol ar adeg pan fo cyllid yn heriol iawn.

Hoffwn ddiolch i’m cyd-lywodraethwyr sy’n awyddus iawn i’ch sicrhau eu bod yn cymryd eu dyletswyddau o ddifrif, ac yn gwneud hynny drwy’r amrywiol bwyllgorau sy’n cyfarfod yn rheolaidd i drafod polisïau a gweithgareddau’r ysgol.

Hoffwn hefyd ddiolch i chi fel rhieni a gofalwyr am eich cefnogaeth dros y blynyddoedd. Mae eich cefnogaeth yn golygu y gall yr ysgol barhau i ddarparu’r cyfleoedd gorau posibl i’ch plant ffynnu a rhagori.

Mae croeso i chi gysylltu â’r Pennaeth neu fi fel Cadeirydd y Corff Llywodraethol, os hoffech drafod unrhyw fater sydd yn yr adroddiad.

Yr eiddoch yn ddiffuant
**Gareth Beynon-Thomas**
**Cadeirydd y Corff Llywodraethol**

## Neges oddi wrth Y Pennaeth …

Mae Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethol yn cynnig cipolwg defnyddiol i chi ar rai o nodweddion allweddol yr ysgol a hefyd ei pherfformiad mewn nifer o feysydd. Cymerwch amser i'w ddarllen ac amsugno'r manylion.

Gallwch hefyd ofyn am gopi papur drwy gysylltu â Mrs Beryl Bowen, Clerc y Corff Llywodraethol ar 01554 745100 neu beryl.bowen@ysgolystrade.org.

**Geoff Evans**
**Pennaeth**

## Nodau Ysgol Y Strade

Mae’r ysgol yn darparu o fewn cymuned Gymraeg, hapus, a diogel, yr ystod ehangaf posibl o brofiadau addysgol, gan baratoi ein hieuenctid ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn galluogi pob disgybl i gyflawni ei wir botensial yn academaidd, yn ymarferol ac yn gymdeithasol ac i arddangos parch a chwrteisi tuag at gyd-ddisgyblion ac oedolion. Ysgol Gymraeg yw’r Strade, a disgwylir i’r disgyblion ddefnyddio’r iaith Gymraeg bob cyfle posibl y tu mewn a thu allan i’r ystafell ddosbarth.

## Corff Llywodraethol - 2024-2025

**Cadeirydd y Llywodraethwyr:** Mr Gareth Beynon-Thomas
**Is-Gadeirydd y Llywodraethwyr:** Mr Roger Bowen
**Pennaeth**: Mr Geoff Evans
**Clerc i'r Llywodraethwyr**: Mrs Beryl Bowen
*(beryl.bowen@ysgolystrade.org)*

Mae **20** o aelodau ar y Corff Llywodraethol, gan gynnwys:
Y Pennaeth
6 Rhiant Lywodraethwr
5 Cynrychiolydd yr A.Ll.
2 Gynrychiolydd Athrawon
1 Cynrychiolydd Staff
5 Cynrychiolydd Cyfetholedig sy'n Aelodau Cymunedol

| CYFENW | ENW | CYNRYCHIOLI | DYDDIAD GORFFEN |
|---|---|---|---|
| LLE GWAG | | AALL/LA | |
| BEYNON-THOMAS | Gareth | AALL/LA | 31/08/2028 |
| BOWEN | Roger | AALL/LA | 02/02/2026 |
| BROOM (Cyng) | Kim | AALL/LA | 03/09/2029 |
| DAVIES | Martin | AALL/LA | 17/07/2028 |
| | | | |
| LLE GWAG | | CYMUNEDOL | |
| DENMAN | Sian | CYMUNEDOL | 31/08/2029 |
| HOPPING | Sara | CYMUNEDOL | 08/01/2029 |
| OWENS | Sarah | CYMUNEDOL | 03/02/2026 |
| STUART | Julie | CYMUNEDOL | 31/08/2029 |
| | | | |
| BOWEN | Mark | RHIANT | 15/05/2029 |
| EVANS | Ben | RHIANT | 15/12/2028 |
| HAWKINS | Jamie | RHIANT | 28/02/2027 |
| HEYES | Emma | RHIANT | 05/04/2026 |
| REES-DAVIES | Trudi | RHIANT | 15/12/2028 |
| ROGERS | Steffan | RHIANT | 15/12/2028 |
| | | | |
| HUGHES | Daniel | STAFF DYSGU | 01/10/2026 |
| JONES | Heulwen | STAFF DYSGU | 05/11/2026 |
| MORRIS | Bethan | STAFF | 31/10/2027 |
| EVANS | Geoff | PENNAETH | |

## Cyfarfodydd Y Corff Llywodraethol gyda Rhieni

Ni ofynnwyd/cynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd gyda rhieni yn ystod y flwyddyn academaidd 2024-25

### Newidiadau i Gyfarfodydd Blynyddol y Rhieni / Llywodraethwyr (2013)

Mae Adran 94 y Ddeddf safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf) yn gwneud newidiadau pwysig i'r trefniadau deddfwriaethol blaenorol oedd yn ymwneud â Chyfarfodydd Blynyddol y Rhieni/Llywodraethwyr. Mae'n darparu trefniadau newydd lle gall rhieni ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethol.

Fodd bynnag, bydd angen i'r rhieni fodloni pedwar (4) gofyniad statudol wrth alw cyfarfod sef:-
(i) rhaid i rieni 10% o'r disgyblion cofrestredig, neu rieni 30 o'r disgyblion cofrestredig (pa bynnag sydd isaf) arwyddo deiseb yn gofyn am gyfarfod;
(ii) rhaid mai diben y cyfarfod yw trafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol;
(iii) y nifer fwyaf o gyfarfodydd y gall rhieni ofyn amdanynt o fewn unrhyw flwyddyn ysgol yw tri (3);
(iv) rhaid bod yna ddigon o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol i ganiatáu cyfarfod;

**At hynny:-**
a) rhaid cynnal y cyfarfodydd cyn diwedd cyfnod o 25 niwrnod;
b) mae'r cyfnod o 25 niwrnod yn cychwyn y diwrnod ar ôl derbyn y ddeiseb, ond nid yw'n cynnwys unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod ysgol;
c) os oes angen cynnal cyfarfod arall o ganlyniad i ddeiseb wahanol, ni fydd y cyfnod o 25 niwrnod yn dechrau tan y diwrnod ar ôl cynnal y cyfarfod arall;
(ch) rhaid bod digon o ddyddiadau ar ôl yn y flwyddyn ysgol i gynnal cyfarfod cyn diwedd y cyfnod o 25 niwrnod;
(d) bydd cyfarfodydd yn agored i holl rieni'r disgyblion cofrestredig yn yr ysgol, y Pennaeth ac unrhyw un arall a wahoddir gan y corff llywodraethol;
(dd) mae'n rhaid i hysbysiad y cyfarfodydd i'r rhieni gynnwys dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod ynghyd â'r mater neu faterion i'w trafod

Bydd angen i gyrff llywodraethu hysbysu rhieni yn flynyddol am yr hawl i ddeisebu cyfarfod trwy ddefnyddio'r pwerau a ddarperir gan Adran 94.

Mae'r trefniadau yma wedi cael eu mabwysiadu gan yr ysgol ers mis Medi 2018. Nid yw'r rheoliadau bellach yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol gynnal y cyfarfod blynyddol gyda rhieni oni bai bod rhieni disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn gofyn am gyfarfod o'r fath. Hyd yma, nid ydym wedi derbyn deiseb i gynnal cyfarfod rhieni yn unol â'r ddeddf uchod.

Enw/cyfeiriad ar gyfer cyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol yw:

Mrs Beryl Bowen
Clerc y Llywodraethwyr
Ysgol Y Strade
Heol Sandy
Llanelli
SA14 8DG

Cyfeiriad e-bost : *beryl.bowen@ysgolystrade.org*

Mae cyngor a manylion pellach ynghylch sut y gall rhieni fynd ati i ofyn am gyfarfod â Chorff Llywodraethol ar gael yn yr ysgol, a/neu ar wefan Llywodraeth Cymru trwy ddilyn y ddolen: https://llyw.cymru/addysg-a-sgiliau

## Dyddiadau Gwyliau Ysgol 2025-26

| Tymor | Dechrau | Hanner Tymor | | Diwedd |
|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | Diwedd | |
| Hydref 2025 | Medi 1af | Hydref 27ain | Hydref 31ain | Rhagfyr 19eg |
| Gwanwyn 2026 | Ionawr 5ed | Chwefror 16eg | Chwefror 20fed | Mawrth 27ain |
| Haf 2026 | Ebrill 13eg | Mai 25ain | Mai 29ain | Gorffennaf 20fed |

| Dyddiau HMS Penodol: | Dyddiau HMS ar ddisgresiwn yr ysgol: |
|---|---|
| Dydd Llun, Medi 1af 2025 | Dydd Gwener Tachwedd 14eg, 2025; Dydd Llun Ionawr 5ed,2026; Dydd Gwener Chwefror 13eg, 2026; Dydd Gwener Mawrth 27ain, 2026, Dydd Llun Mehefin 20fed, 2026 |

## Nosweithiau Ymgynghorol ar gyfer Rhieni

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd i rieni drafod gydag athrawon yr ysgol ar y nosweithiau canlynol rhwng 4.00 a 6.30 o'r gloch.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 02/10/2025 | Noson Setlo 7 | | 19/03/2026 | Noson Dewisiadau 10 |
| 04/12/2025 | Blwyddyn 11 | | | *(ar gyfer disgyblion Bl 9)* |
| 15/01/2026 | Blwyddyn 10 | | | |
| 29/01/2026 | Blwyddyn 12/13 | | 25/11/2025 | Noson Dewisiadau 12 (ar gyfer disgyblion Bl 11) |
| 12/02/2026 | Blwyddyn 8 | | | |
| 26/02/2026 | Blwyddyn 7 | | 23/10/2025 | Noson Agored |
| 12/03/2026 | Blwyddyn 9 | | | |
| | | | | |

## Datganiad Cyllidol

Cytunir ar faterion cyllidol trwy gyfrwng Is-bwyllgor Cyllid y Llywodraethwyr. Dyma grynodeb o ddatganiad cyllidol yr ysgol yn 2022-2023:

| Costau | Incwm | Gwariant | Sefyllfa diwedd blwyddyn |
|---|---|---|---|
| Gweithwyr | | £6,602,308 | |
| Adeilad | | £528,153 | |
| Teithio | | £38,716 | |
| Nwyddau a Gwasanaethau | | £899,450 | |
| Incwm | | £1,740,316 | |
| Gwariant net | | £6,328,311 | |
| Fformiwla 2024/2025 | £5,903,218 | | |
| Gwarged 2023/2024 | £335,392 | | |
| Cyfanswm ar gael | £6,238,610 | | |
| | | | |
| Cario 'mlaen at 2025/2026 | | | -£89,701 |

## Cyrchnodau Disgyblion - 2024-2025

| Cyrchnodau Blwyddyn | 11 | 12 | 13 |
|---|---|---|---|
| Prentisiaeth | 2 | 1 | 1 |
| Statws presennol yn anhysbys | 1 | 0 | 5 |
| Addysg Bellach LlA | 85 | 8 | 6 |
| Addysg Bellach RhA | 6 | 1 | 2 |
| AU | 0 | 0 | 51 |
| JGW + Cyswllt | 3 | 0 | 0 |
| Swydd LlA – dim hyfforddiant ffurfiol | 2 | 1 | 5 |
| Swydd LlA – gyda hyfforddiant ffurfiol | 0 | 0 | 1 |
| Swydd RhA – dim hyfforddiant ffurfiol | 1 | 1 | 11 |
| Nad ydynt yn gyflogedig – wrthi'n chwilio | 2 | 1 | 1 |
| Nad ydynt yn gyflogedig – ddim yn barod | 1 | 0 | 0 |
| Blwyddyn 11 | 1 | 0 | |
| Blwyddyn 12 | 97 | 0 | |
| Blwyddyn 13 | 0 | 88 | 0 |
| Blwyddyn 14 | | 0 | 4 |
| Cyfanswm | 201 | 101 | 87 |

## Canlyniadau Arholiadau Allanol – Haf 2025

## TGAU

| Sgor Pwyntiau | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cap 9 | Cyfartaledd Llythrennedd | Cyfartaledd Rhifedd | Cyfartaledd Gwyddoniaeth | Cyfartaledd Tystysgrif Her Sgiliau |
| Strade 2025 | 364.7 | 42.1 | 37.4 | 39.5 | 40.8 |
| Strade 2024 | 378.8 | 43.9 | 40.1 | 41.3 | 39.4 |
| Strade 2023 | 372.1 | 43.5 | 39.6 | 41.4 | 32.1 |

| % Graddau TGAU | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | A*-A | A*-C | A*-G | Including We/En/Ma |
| Strade 2025 | 22 | 76 | 96 | 55 |
| Strade 2024 | 21 | 78 | 99 | 65 |
| Strade 2023 | 28 | 75 | 92 | 60 |

| % Graddau Lefel A | | | |
|---|---|---|---|
| | A*-A | A*-C | A*-E |
| Strade 2025 | 34 | 75 | 93 |
| Strade 2024 | 25 | 74 | 94 |
| Strade 2023 | 34 | 79 | 97 |

## Presenoldeb

| | **Presenoldeb 2024-25 (%)** | **Absennol gyda caniatad %** | **Absenol heb ganiatad %** |
|---|---|---|---|
| Strade | 88.3 | 9.1 | 2.6 |
| Sir Gar | 87.2 | 8.0 | 4.8 |
| Cymru | 89.1 | 6.5 | 4.4 |

## Cwricwlwm

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu Cwricwlwm i Gymru i oll ddysgwyr blwyddyn 7 a 8. Bwriad ein cwricwlwm yw i godi dyheadau pob dysgwr. Fel ysgol rydym wedi cynllunio yn ofalus sut i gefnogi pob dysgwr i wireddu'r pedwar diben ac i gyrraedd eu potensial. Rydym yn parhau i wreiddio'r Cod Newydd ADY ac yn cynllunio ein darpariaeth er mwyn bodloni anghenion gwahanol grwpiau o ddysgwyr. Mae'r pedwar diben yn ganolig i CiG a'r man cychwyn wrth i ni gynllunio ein cwricwlwm.

Nod ein hysgol yw cefnogi ein dysgwyr i fod yn;

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus Cymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Bydd ein cwricwlwm yn datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol megis llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Bydd ein cwricwlwm yn galluogi dysgwyr i ddatblygu cymhwysedd a gallu yn y sgiliau hyn a'u hymestyn a'u cymhwyso ar draws pob Maes. Bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i;

- ddatblygu sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu
- gallu defnyddio rhifau a datrys problemau mewn sefyllfaoedd go iawn
- bod yn ddefnyddwyr hyderus o ystod o dechnolegau i'w helpu i weithredu a chyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd

Ceir gwybodaeth fanwl am gwricwlwm yr ysgol mewn cyflwyniadau a gwefannau a baratowyd ar gyfer disgyblion a rhieni, sef Prosbectws yr Ysgol, Llwybrau Dysgu 14+, a Llwybrau Dysgu 16+. Yn ychwanegol fe gynhelir Noson Agored 'Yr ysgol ar waith' ar gyfer rhieni Blwyddyn 5 a 6 ysgolion Y Teulu ym mis Hydref, Noson Dewis TGAU ar gyfer rhieni a dysgwyr blwyddyn 9 ym mis Mawrth a noson dewisiadau Chweched dosbarth ym mis Chwefror ar gyfer rhieni a dysgwyr blwyddyn 11.

Bydd ein cwricwlwm ysgol yn cael ei adolygu'n barhaus er mwyn ymateb i ymholi proffesiynol, anghenion cyfnewidiol dysgwyr a chyd-destunau ac anghenion cymdeithasol. Bydd yr adolygiadau'n ystyried barn rhanddeiliaid ac yn cael eu cymeradwyo gan y Corff Llywodraethol. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'n cwricwlwm ac yn adolygu'r crynodeb os gwneir newidiadau i'r cwricwlwm yn ystod y broses adolygu.

## Polisi Iaith

Mae Ysgol Y Strade yn ysgol categori 3. Cymraeg yw iaith swyddogol Ysgol Y Strade a dysgir pob pwnc, ac eithrio Saesneg, hyd at T.G.A.U trwy gyfrwng y Gymraeg. Dysgir Mathemateg a Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ym mlynyddoedd 9-11. Mae'r ysgol yn gweithredu ar dargedau Cynllun Strategol Iaith Sir Gar i symud yr ysgol ar hyd y continwwm ieithyddol. Mewn gwersi Gwyddoniaeth a Mathemateg cyfrwng Cymraeg ym mlwyddyn 9,10 ac 11 darperir rhestrau termau a geirfa pwnc yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ychwanegol fe ddefnyddir adnoddau, llyfrau ac adnoddau digidol cyfrwng Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg yn rheolaidd i gyfoethogi datblygiad ieithyddol, gwyddonol a mathemategol y disgyblion. Mae hyn yn sicrhau y bydd pob disgybl yn medru trafod y pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn dileu unrhyw ofid a all fodoli ymhlith y rhai sy'n credu y gall addysg wyddonol a mathemategol trwy'r Gymraeg yn unig ei gwneud yn anodd i ddisgyblion wedi gadael ysgol.

## Yr Iaith Gymraeg

Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol a'r mwyafrif helaeth o wersi academaidd. Mae'r ysgol yn falch o'i hethos Cymreig ac yn gweithredu i sicrhau fod hyn yn cael ei gynnal ar gyfer pob carfan newydd o ddisgyblion. Anogir disgyblion sydd yn dewis mynychu'r ysgol i siarad Cymraeg o gwmpas yr ysgol, mewn gweithgareddau allgyrsiol ac mewn gwersi sy'n cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnir i rieni gefnogi'r ysgol yn hyn o beth trwy annog eu plant i siarad Cymraeg, i barchu Cymreictod yr ysgol a'u hannog hwy i wneud eu gorau i hybu hyn ar bob achlysur.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni yn ddwyieithog ac mae pob llythyr neu ohebiaeth sydd yn cael ei ryddhau gan yr ysgol yn y Gymraeg a'r Saesneg

## Polisïau

Adolygir polisiau'r ysgol yn dymhorol ar raglen dreigl gan yr is-bwyllgorau cyn iddynt cael eu mabwysiadu gan y Corff Llywodraethol. Gellir gysylltu gyda'r ysgol os oes gennych unrhyw gwestiynau neu am edrych ar bolisi nad yw ymddangos ar wefan yr ysgol.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol 2024-25

Mae nod ac amcanion yr ysgol yn datgan ein bod yn ceisio darparu ar gyfer pob disgybl. Mae hyn yn cynnwys pob disgybl sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Gall yr anghenion dysgu ychwanegol ddeillio o nifer o agweddau gan gynnwys: cyrhaeddiad academaidd isel, anabledd corfforol, anghenion seicolegol, cefndir cymdeithasol, anhawster dysgu penodol, ymddygiad anghymdeithasol.

Yn 2024-2025 yr oedd 2 ddisgybl (bl.11 a 12) ar ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig a 15 disgybl (bl.7-12) gyda Chynllun Datblygu Unigol oherwydd Anghenion Dysgu Ychwanegol. Tynnir rhai disgyblion â datganiad neu Gynllun Datblygu Unigol allan o wersi ar adegau fel eu bod yn cael eu dysgu mewn grwpiau bach neu'n unigol yn yr hafan waith. Hefyd rhoddir cefnogaeth iddynt o fewn y dosbarth mewn gwersi yn y brif ffrwd yn ôl yr angen. Parhawyd yn 2024-2025 gyda'r Dosbarth Maethu ym mlwyddyn 7 a 8 lle mae'r addysgu yn addas ar gyfer anghenion grŵp penodol o ddysgwyr. Rhoddir cymorth penodol mewn darllen a rhif i nifer o ddisgyblion eraill mewn sesiynau ymyrraeth boreol. Hefyd, tynnir rhai allan o wersi am gyfnodau er mwyn derbyn cymorth ychwanegol.

Mae cysylltiad agos iawn rhwng yr Adran Anghenion Dysgu Ychwanegol ac adrannau eraill a mabwysiadwyd yr ethos bod ADY yn fusnes i bawb. Yn ogystal, mae cysylltiad agos rhwng yr Adran Anghenion Dysgu Ychwanegol gydag asiantau allanol e.e. y Seicolegydd Addysgol sy'n ymweld â'r ysgol yn rheolaidd.

Miss Nia Williams, Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol oedd yn gyfrifol am gynllunio a chydlynu'r ddarpariaeth i'r disgyblion ac anghenion addysgol arbennig/anghenion dysgu ychwanegol. Adolygir y datganiadau/CDU yn flynyddol, mewn cyfarfod a drefnir gyda'r rhieni unigol a'r gwasanaethau cynnal sirol.

Mrs Sara Hopping yw llywodraethwraig cyswllt i'r adran.

| Blwyddyn | Cynlluniau Datblygu Unigol | Cofrestr Yr Ysgol – Cynllun Cymorth |
|---|---|---|
| 7 | 10 | 37 |
| 8 | 5 | 32 |
| 9 | 6 | 50 |
| 10 | 6 | 50 |
| 11 | 2 | 22 |
| 12 | 1 | 23 |

Crëwyd cynllun cymorth ar nifer o ddisgyblion oedd angen cymorth ychwanegol. Dengys y Cynllun Cymorth beth sydd yn anodd i'r disgybl a sut i gefnogi'r disgybl; mae'r wybodaeth yma ar gael ar Class charts fel bod pob aelod o staff yn cael mynediad iddo. Er mwyn cynorthwyo'r athrawon ymhellach i ddarparu'r addysg/strategaethau gorau i bob disgybl rydym yn nodi gwybodaeth bellach ar Class charts gan gynnwys trefniadau mynediad.

Bellach derbynia nifer o ddisgyblion drefniadau mynediad yn eu harholiadau allanol a mewnol gan gynnwys nifer fawr o ddisgyblion ar y gofrestr AAA/ADY.

## Disgyblion ag Anableddau

- Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 bydd Ysgol Y Strade yn ceisio sicrhau mynediad i ddisgyblion ag unrhyw rai anableddau - corfforol, meddyliol neu ddysgu.
- Credwn yn gryf mewn darparu mynediad cyfartal i'r cwricwlwm yn ogystal â darparu cyfleoedd cyfartal i ddisgyblion ag anableddau corfforol a meddyliol yn ogystal ag anableddau dysgu. I sylweddoli y nod hwn byddwn yn trafod anghenion gyda rhieni/gofalwyr y disgyblion a'r Awdurdod Addysg Lleol i benderfynu ar y cynllun dysgu mwyaf priodol ar gyfer pob plentyn unigol. Llwyddiant y bydd y rhaglen a ddarperir yn cael ei monitro'n flynyddol a'i haddasu yn unol â hynny. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy trafodaeth gyda rhieni/gofalwyr mewn cyfarfodydd adolygu blynyddol.
- Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn ei gwneud hi'n orfodol i ysgolion baratoi Cynllun Cydraddoldeb Anabledd a chynllun gweithredu cysylltiedig sy'n cynnwys y camau y mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd i hybu anabledd a chydraddoldeb hygyrchedd.

## Disgyblion Abl a Dawnus

Mae ein hysgolion cynradd yn rhannu gwybodaeth gyda'r Strade ar ddoniau a thalentau disgyblion cyn iddyn nhw gyrraedd. Ceir cyfleoedd eang yn gwricwlaidd ac allgyrsiol i ddisgyblion abl a dawnus ar draws y pynciau. Defnyddir data cyrhaeddiad a thargedau heriol i adnabod a herio disgyblion i ragori.

## Lles Addysg Gorfforol

O fewn gwersi Lles Addysg Gorfforol theori caiff disgyblion y cyfle i feithrin eu lles meddyliol ac emosiynol trwy ddatblygu elfennau megis gwydnwch, dyfalbarhad, yn ogystal a barhau i ddatblygu hyder, perthynas ac empathi. Byddant yn wynebu heriau ac yn eu trechu wrth gwneud cyswllt a'r gwersi ymarferol. Hybu dealltwriaeth pwysig o'r cyswllt rhwng iechyd (lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol) ac ymarfer.

<u>Cynigir y cyrsiau canlynol yng CA4 a 5 i ddatblygu ymhellach ym maes Addysg Gorfforol:</u>

TGAU Addysg Gorfforol
L2 Chwaraeon
Lefel A/UG Addysg Gorfforol
BTEC Lefel 3 Chwaraeon

Profiadau:

- Clybiau allgyrsiol
- Cystadlu mewn amryw o gemau ysgolion, sirol a Chymru gyfan mewn amryw o weithgareddau.
- Rydym yn cefnogi cystadlaethau'r Urdd yn flynyddol.
- Teithiau Addysg Gorfforol a Iechyd a Lles
- Cyfleoedd i arwain, trefnu, dyfarnu ac hyfforddi amryw o weithgareddau
- Sesiynau blasu gweithgareddau gwahanol
- Diwrnodau rhynglysol megis Hwyl Ras a Gemau cystadleuol (megis Pêl-rwyd, Rygbi a Phêl-droed)
- Cyswllt agos ag actif Sir Gar - ehangu cyfleon i ddisgyblion megis Rhaglen Arweinyddiaeth a Llysgenhadon Ifanc Aur/Arian Chwaraeon.

Cynigir y gweithgareddau canlynol:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rygbi | Badminton | Ffitrwydd Corfforol | Crossfit |
| Pêl-droed | Adeiladu Tim | Pêl-fasged | Gymnasteg |
| Dawnsio Gwerin | Trawsgwlad | Criced | Athletau Dan Do |
| Athletau | Pêl-rwyd | Ymarfer cylched | Rownderi |
| Criced | Dawns | Ymarfer pwysau | Tenis |
| Sgiliau Pel | | | |

## Cynllun Hygyrchedd

Mae'r Llywodraethwyr yn falch o fedru cyhoeddi ers sawl blwyddyn bellach mae safle ac adeilad Ysgol Y Strade yn hygyrch ar gyfer disgyblion ac oedolion gydag ystod o anableddau a defnyddwyr cadair olwyn. Mae'r adeiladau newydd yn cynnwys tai bach ar gyfer yr anabl a lifftiau i'r lloriau uwch.

## Darpariaeth Cyfleusterau Toiled

Darperir 8 lleoliad ar gyfer toiledau i'r disgyblion gan gynnwys 2 i ferched, 2 i fechgyn a 4 lleoliad unrhywiol. Archwilir cyfleusterau toiled yn rheolaidd ac mae'n rhan o gontract glanhau'r ysgol o dan gytundeb lefel gwasanaeth yr ysgol gyda'r Awdurdod Lleol. Mae'r disgyblion, drwy waith y Cyngor Ysgol, yn cyfrannu at y gwaith o fonitro ansawdd y cyfleusterau hyn.

## PARTNERIAETHAU CYMUNEDOL

Mae ein gweledigaeth ar y cyd ar gyfer cymuned yr ysgol, wedi ein galluogi i barhau i ddatblygu ymdeimlad cryf o deulu. Cyflawnwyd hyn trwy weithio mewn partneriaeth â phob aelod o gymuned yr ysgol.

Rydym yn gwerthfawrogi perthnasoedd cryf gyda rhieni a gofalwyr, gyda llinellau agored a thryloyw o gyfathrebu. Rydym wedi parhau i ddatblygu rhaglen o ddigwyddiadau i gefnogi cysylltiadau gwell sy'n cynnwys nosweithiau agored, nosweithiau gwybodaeth a digwyddiadau ymgysylltu busnes cymunedol blynyddol ymysg eraill.

Mae perthnasoedd cadarnhaol a chynhyrchiol iawn yn bodoli gyda'n hysgolion cynradd partner. Rydym wedi sefydlu prosesau sefydlog ac effeithiol i gynrychiolwyr o bob un o'r ysgolion yn y bartneriaeth ddod at ei gilydd drwy gydol y flwyddyn, i gydweithio ar y cwricwlwm, addysgeg ac asesu. Mae hyn yn cefnogi ac yn gwella'r gweithgareddau pontio penodol sydd ar waith ar gyfer dysgwyr. Mae ein partneriaeth gyda'n hysgolion cynradd clwstwr yn ein galluogi i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o ddilyniant, un o nodau canolog y Cwricwlwm i Gymru.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cyflwynwyd y rhaglen 'Strade yn y Gymuned' lle rydym yn cydweithio â sefydliadau amrywiol a gwasanaethau allanol i gyfoethogi profiadau ein dysgwyr. Daw'r profiadau hyn â llawer o gyfleoedd i'n dysgwyr a'u teuluoedd. Mae enghreifftiau'n cynnwys cydweithio â'r Frigâd Dân, Foothold a champfa bocsio leol. Un o uchafbwyntiau'r rhaglen yw'r cydweithio gyda chartref gofal 'Hafan Y Coed' lle mae'r dysgwyr yn cymdeithasu ac yn cefnogi'r trigolion yn wythnosol.

Mae disgyblion o Ysgol Y Strade hefyd yn ymwneud ag ystod amrywiol o weithgareddau cymunedol eraill, rhai ohonynt yn rhan o'u cymwysterau Dug Caeredin neu Fagloriaeth Cymru. Mae'r ysgol hefyd yn cynnal ac yn datblygu

partneriaethau gydag ystod o asiantaethau allanol sy'n ffurfio rhan gwerthfawr o'r gymuned ehangach o gefnogaeth yn Ysgol Y Strade.

## Iechyd a diogelwch

Mae polisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol yn adlewyrchu dyhead y Corff Llywodraethol i sicrhau safle diogel i'r disgyblion a'r staff fel ei gilydd. Cynrychiolir pob categori cyflogaeth o blith y staff ar Bwyllgor Iechyd a Diogelwch y staff. Mae'r pwyllgor hwn yn adrodd yn ôl i Bwyllgor Adeiladau y Llywodraethwyr. Pwysleisir i'r staff y dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Iechyd a Diogelwch sef, Rheolwr Busnes yr Ysgol, bethan.morris@ysgolystrde.org am unrhyw ddiffygion / peryglon yn syth.

## Prosbectws yr ysgol

Caiff Prosbectws yr Ysgol ei addasu yn flynyddol er mwyn cynnwys unrhyw newidiadau sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru a chyrff perthnasol eraill. Mae copïau ar gael ar wefan yr ysgol neu dros yr e-bost neu os oes problemau gyda hynny, darperir copi caled drwy gais i swyddfa'r ysgol.

## Cynllun Datblygiad Ysgol 2025-2026

| | **Erbyn diwedd Mehedin 2026, ein bwriad yw i ;** |
|---|---|
| **1.** | Sicrhau defnydd effeithiol o ddata presenoldeb i godi cyfraddau presenoldeb ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr gan gynnwys dysgwyr sy'n agored i niwed ac sy'n gymwys i gael PYDd |
| **2.** | Sicrhau darpariaeth gyson ar gyfer dysgwyr ADY a monitro cynnydd yn agos fel bod pawb yn cael mynediad llawn i'w haddysg. |
| **3.** | Codi safon yr addysgu ar draws yr ysgol sy'n cynnwys;<br>Sicrhau adborth amserol a phwrpasol i ddysgwyr yn y lleiafrif o adrannau<br>Sicrhau her briodol i bob gallu trwy wahaniaethu effeithiol |
| **4.** | Darparu cyfleoedd pwrpasol i ddysgwyr gymhwyso eu sgiliau rhifedd mewn cyd-destunau mwy cymhleth ar draws y cwricwlwm |
| **5.** | Cryfhau sgiliau ysgrifennu'r dysgwyr yn benodol cywirdeb yr ysgrifennu. |

## BWYTA AC YFED YN IACH

Gall y bwyd a diod a ddarperir yn yr ysgol wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gynnig diet iach a chytbwys i blant a phobl ifanc a'u hannog i ddatblygu arferion bwyta da. Y nod yw cyflawni ymagwedd positif ysgol gyfan tuag at fwyta'n iach ac i annog agweddau iach at fwyd a yfed o oedran cynnar. Mae hyn yn unol â Maes Dysgu Iechyd,Lles a Phrofiad o fewn y Cwricwlwm i Gymru.

Mae ffreutur yr ysgol yn darparu ystod o wahanol brydau iachus bob dydd. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o ddewisiadau dietegol bob dydd. Lleolir ffynhonnau dŵr ar draws yr ysgol i ddisgyblion gael mynediad i ddŵr yfed neu lenwi eu potel dŵr y a darperir dŵr yn rhad ac am ddim yn y ffreutur amser cinio.

## Cyfraniad Y GRA

Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon wedi cyfrannu at y wal goch, sef 'murlun' gan Jenks Art yng Nghampfa'r ysgol, at adnoddau ar gyfer yr adran Addysg Dysgu Ychwanegol (ADY) ac wedi cefnogi gweithgareddau allgyrsiol o fewn yr ysgol, e.e. 'Yr ysgol ar waith'.

Mae Gweithiwr Ieuenctid a Chynghorwyr yn cyfoethogi profiadau disgyblion ar draws yr ysgol. Mae gan yr ysgol hefyd berthynas gref iawn gyda PC Alison Timothy, ein swyddog cyswllt heddlu. Mae PC Timothy yn dilyn Rhaglen Ddysgu 'School Beat' ac yn darparu gwersi ar themâu cyfoes yng nghyfnodau allweddol 3, 4 a 5 trwy gydol y flwyddyn.

Trafodir cofnodion y Cyngor Ysgol yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Corff Llywodraethol gan gynnwys materion bwyta'n iach yn ffreutur yr ysgol.

## Llwyddiannau Disgyblion

Mae'r Llywodraethwyr yn llawenhau ac yn ymfalchio mewn llwyddiant disgyblion yr ysgol mewn arholiadau, chwaraeon, eisteddfodau, cyngherddau, cystadleuthau, gweithgareddau dyngarol a nifer o feysydd eraill. Pleser, bob amser, yw clywed gan bobl o'r tu allan i'r ysgol am yr enw da sydd iddi yn gyffredinol ac am ymddygiad canmoladwy y disgyblion.

Estynnwn ein llongyfarchiadau i'r disgyblion ac i'r staff a dymunwn hir barhad i'r ymdrechion hynny.